**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

31 Mawrth 2025

Annwyl Brif Weithredwr

**ADRODD AR DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL**

Fel y gwyddoch, ers 1 Ebrill 2024 mae eich sefydliad wedi bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (y Deddf). Oherwydd hynny, mae'n yn ofynnol i'ch sefydliad geisio consensws neu gyfaddawd â'ch undebau llafur cydnabyddedig (neu gynrychiolwyr eraill o staff), wrth osod eich amcanion llesiant neu wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rydych chi'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Bydd disgwyl i'ch sefydliad gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf ar ôl 1 Ebrill. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, a rhaid iddo esbonio'r hyn rydych chi wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn y 12 mis a fu. Rhaid cyflwyno'r adroddiad hefyd i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol .

Nid yw'r Ddeddf yn nodi'r strwythur a'r cynnwys ar gyfer adroddiadau blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol, ond bydd angen i gyrff cyhoeddus ddangos yr elfennau canlynol yn yr adroddiad:

- lle mae corff cyhoeddus wedi gosod amcanion llesiant yn ystod y cyfnod adrodd, tystiolaeth ei fod wedi ceisio consensws neu gyfaddawd gyda'r gweithlu (trwy undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff) mewn perthynas â'r rhain, a chanlyniad y broses honno;

- lle mae corff cyhoeddus wedi gwneud penderfyniadau o natur strategol mewn perthynas â'r camau rhesymol y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant hynny yn ystod y cyfnod adrodd, tystiolaeth ei fod wedi ceisio consensws neu gyfaddawd gyda'r gweithlu mewn perthynas â'r rhain, a chanlyniad y broses honno;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- p'un a yw pob adroddiad blynyddol corff cyhoeddus wedi'i gytuno â'r gweithlu, ac os nad oes cytundeb, y rhesymau dros hynny.

Nid oes unrhyw ofyniad ar eich sefydliad i ddarparu unrhyw wybodaeth yn ychwanegol at yr hyn a nodir y Ddeddf. Er hynny, mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi cynghori y byddai'n hynod ddefnyddiol cael gweld y canlynol yn eich adroddiad hefyd:

- pa mor aml y mae cyflogwr yn cyfarfod ag ag undebau llafur fel rhan o'i ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol?;

- a ddarparwyd hyfforddiant i weithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur ar sut yr oedd y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cael ei weithredu yn y sefydliad hwnnw;

- unrhyw enghreifftiau o ble mae gweithgarwch yn mynd rhagddo'n dda yn y cyfnod adrodd, gan gynnwys astudiaethau achos.

Gofynnaf felly i'ch sefydliad ystyried cynnwys yr wybodaeth uchod fel rhan o'r adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol.

I gloi, fe'ch anogir wneud defnydd o'r ystod o adnoddau allweddol sydd ar gael i bartneriaid cymdeithasol. Mae'r rhain i'w cael drwy glicio ar y dolenni isod
Paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol (llyw.cymru) .
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): dysgu ar-lein am ddim

Yn gywir



**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership